

CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

DYDD MAWRTH, 27 GORFFENNAF, 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

S Jenkins, Rheolwr Ardal Datblygu Economaidd

T Peregrine, Datblygu Economaidd Cydlwydd

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod : 2.00 yp - 2.30 yp

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 18FED MEHEFIN 2021

PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Mehefin 2021, gan ei fod yn gywir.

3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

4. RHAGLEN TRAWSNEWID TREFI

Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, **PENDERFYNWYD** yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r unigolion a'r busnesau a nodir yn yr adroddiad o dan anfantaes annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyd masnachol.

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad yn amlinellu blaenraglen o brosiectau adfywio posibl, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, caffael eiddo posibl, astudiaethau adfywio, gwaith dylunio, digwyddiadau, cymorth busnes ac ati, a fydd, yn amodol ar gymeradwyaeth, yn sail i geisiadau yn y dyfodol am gymorth gan Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r flaenraglen waith o weithgarwch adfywio a gyflwynwyd a bod y cais tua £1.65m yn sail i geisiadau yn y dyfodol o dan y Rhaglen Trawsnewid Trefi.

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD